

Cyflawni amcanion a rennir: y berthynas rhwng cyrff cyhoeddus a'r trydydd sector

Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol 1 Chwefror, 2018

1. Cyd-destun

- 1.1 Mae'r gwahoddiad i'r cyfarfod hwn yn deillio o'r cynllun gweithredu ar y cyd rhwng yr Ysgrifennydd Cabinet blaenorol dros Gyllid a Llywodraeth Leol a'r trydydd sector o dan Gynllun y Trydydd Sector. Un o flaenoriaethau'r cynllun gweithredu yw:

Y berthynas â llywodraeth leol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r gwasanaethau rhanbarthol newydd;

- a) Perthynas ariannu fwy effeithiol rhwng llywodraeth leol a'r trydydd sector
 - b) Gwella ymwneud y trydydd sector â strwythurau allweddol y sector cyhoeddus
- 1.2 Gofynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet am eitem yn y Cyngor Partneriaeth i drafod ffyrdd posib o wireddu'r amcanion ar y cyd a nodir uchod.

2. Rhoi gwerth ar y trydydd sector yng Nghymru

- 2.1 Mae Cymru'n elwa o'r trydydd sector a gwirfoddoli mewn sawl ffordd. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, gwirfoddolodd 28% o bobl yn 2016-17. Mae'r cyfraniad hwn yn gyfwerth â £757m. Ceir dros 32,000 o fudiadau yn y trydydd sector, ac mae'n gyfrifol am bron i 10% o gyflogaeth yng Nghymru, gyda 116,600 o bobl yn cael eu cyflogi gan fudiadau trydydd sector.
- 2.2 Amcangyfrifir bod gan y sector incwm gwerth £1,092 miliwn y flwyddyn (ac eithrio Cymdeithasau Tai), a daw 35% o hwnnw o roddion gan y cyhoedd. Amcangyfrifir bod Llywodraeth Cymru yn gwario £289m y flwyddyn ar y trydydd sector, sy'n gyfwerth ag 1.9% o gyfanswm gwariant y llywodraeth.
- 2.3 Mae mudiadau trydydd sector yn fudiadau annibynnol sy'n cael eu llywio gan werthoedd, sydd wedi ymrwymo i ailfuddsoddi arian dros ben i hybu eu cenhadaeth a rhoi budd i'r cyhoedd. Yn wyneb heriau sylweddol i ddod - o effaith cyni i'r newid yn yr hinsawdd a globaleiddio - mae gan drydydd sector cryf yng Nghymru ran hanfodol i'w chwarae yn cynyddu llesiant yng Nghymru. Dylai trydydd sector iach a gweithgar fod ar flaen y gad wrth ymateb yn bositif i'r heriau cymdeithasol mawr hyn, boed hynny'n siarad ar ran y bobl sydd fwyaf ar yr ymylon, hybu atebion lleol neu gyfrannu at economi decach.

2.4 Serch hynny, mae ymchwil gan WCVA a Chynghorau Gwirfoddol Sirol (gweler yr adroddiadau [Llunio Eich Dyfodol](#), Tachwedd 2016) yn rhybuddio bod y trydydd sector hefyd yn wynebu dyfodol ansicr. Mae angen cymryd camau ar draws pob sector i atal trydydd sector gwanach a mwy tameidiog mewn blynyddoedd i ddod.

3. Y berthynas rhwng y trydydd sector a chyrff cyhoeddus: beth sydd a beth nad yw'n gweithio

3.1 Mae sawl adroddiad diweddar yn mynegi pryderon arwyddocaol ynghylch y berthynas rhwng y trydydd sector a chyrff cyhoeddus yng Nghymru, yn ogystal â chyfleoedd ac arferion da. Ymysg y rhain y mae adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ar [Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector](#) (Ionawr 2017). Mae rhai o'r canfyddiadau allweddol yn atgyfnerthu ymchwil a gynhaliwyd gan Sefydliad Lloyds Bank ar [Championing Small but Vital Charities](#), yn enwedig yr effaith negyddol y mae arferion comisiynu'r sector cyhoeddus yn ei chael ar elusennau bach a chanolig. Mae deialog cyson y mae WCVA yn ei gynnal â'i aelodau a rhwydweithiau trydydd sector ehangach (gan gynnwys wrth ddatblygu'r papur hwn) yn atgyfnerthu pryderon tebyg.

3.2 Dyma'r prif bryderon:

- Ar y cyfan nid oes gan awdurdodau lleol ffordd strategol effeithiol o weithio gyda'r trydydd sector;
- Mae anghysondeb yn nhrefniadau awdurdodau lleol ar gyfer ariannu'r trydydd sector yn ei gwneud yn anodd dangos gwerth am arian;
- Mae awdurdodau lleol yn methu ag arddangos yn gyson effaith eu gwaith gyda'r trydydd sector;
- Mae tueddiadau comisiynu'r sector cyhoeddus yn niweidio mudiadau bach a chanolig, yn enwedig y newid i ffwrdd oddi wrth grantiau a thuag at gontractau mawr y gall fod yn anodd i elusennau bach gystadlu'n deg amdanynt a'u hennill;
- Diffyg cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector;
- Trefniadau ariannu tymor byr.

4. Meithrin perthynas fwy effeithiol

4.1 Er mwyn i fudiadau trydydd sector chwarae rhan lawn yn gwella llesiant yng Nghymru, mae taer angen mynd i'r afael â'r materion hyn. Ceir eisoes nifer o ffyrdd posib o wneud hynny, fel yr awgrymir isod. Mae llawer o'r rhain eisoes yn eu lle i raddau helaeth, ond mae angen eu diweddarau neu eu diwygio. Mae adnoddau dan bwysau cynyddol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Bydd angen ymrwymiad clir gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus i fwrw'r gwaith hwn yn ei flaen, yn ogystal â chan fudiadau trydydd sector allweddol.

Compactau

4.2 Mae Llywodraeth Cymru (Uned y Trydydd Sector) yn arwain gweithgor i adnewyddu'r arweiniad presennol ar drefniadau compact ar lefel leol. Y nod yw symleiddio'r arweiniad, pwysleisio rhai egwyddorion allweddol a chyfeirio at ddogfennau ffynhonnell gan gynnwys y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu, y rhestr wirio yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a'r [Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd](#) ac [Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithio gyda Chymunedau](#).

Y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu

- 4.3 Mae llawer o'r pryderon y mae mudiadau trydydd sector wedi'u codi yn mynd yn groes i'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector. Er enghraifft, cytundebau ariannu hwyr, taliadau hwyr a newidiadau mewn trefniadau ariannu yng nghanol y flwyddyn. Mae gennym enghreifftiau o daliadau chwarter un yn cael eu talu ym mis Medi. Gall olygu bod cyllid gan y trydydd sector yn rhy beryglus i Ymddiriedolwyr gytuno i ymgymryd â chontractau cyhoeddus. Mae'r arferion hyn yn codi rhwystrau ymarferol gwirioneddol o flaen mudiadau trydydd sector a gallant fygwth hyfywedd yn gyfan gwbl.
- 4.4 Mae angen diweddaru ac atgyfnerthu mecanweithiau adolygu'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu ac achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Canllawiau arfer da wrth gomisiynu

- 4.5 Mae sawl adroddiad wedi cyfeirio at arferion comisiynu presennol sy'n cael effaith niweidiol ar y trydydd sector, yn enwedig mudiadau bach a chanolig. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi tystiolaeth bellach. Mae gwaith WCVA ar gymunedau cryf hefyd wedi amlygu pryderon ynghylch comisiynu. Yn ogystal â thystiolaeth gref o oblygiadau negyddol arferion presennol, mae yna waith y gallwn dynnu arno sy'n amlygu arferion gwell, megis [*Collaborative Commissioning Toolkit for Service in Wales*](#) a ddatblygwyd gan Cymorth i Ferched Cymru a phartneriaid.
- 4.6 Mae WCVA yn argymhell sefydlu gweithgor traws-sector i ddiweddaru canllawiau comisiynu ac ysgogi gwelliannau mewn arferion comisiynu.

Cytundebau ariannu mwy hirdymor

- 4.7 Mae cytundebau arian grant blynyddol yn ei gwneud yn anodd recriwtio a chadw staff medrus yn y tymor byr a chanolig, ac yn amhosib cynllunio at yr hirdymor, yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Gall mudiadau trydydd sector gyflawni mwy o effaith gyda chytundebau ariannu mwy hirdymor.

Rhestr wirio Swyddfa Archwilio Cymru

- 4.8 Yn ei hadroddiad ar y modd y mae llywodraeth leol yn ariannu'r trydydd sector yng Nghymru, cynigiodd Swyddfa Archwilio Cymru restr wirio i awdurdodau lleol er mwyn helpu i roi eglurder ynghylch eu perthynas strategol â'r sector, ynghylch a oedd y modelau ariannu yn briodol ac ynghylch y ffordd maent yn dangos tystiolaeth o effaith eu gwaith gyda'r trydydd sector.

Modelau ariannu newydd

- 4.9 Mae mudiadau wedi darparu rhai enghreifftiau o fodolau newydd sy'n arddel arferion ariannu mwy cydweithredol sydd wedi'u cyd-ddylunio, a all helpu mudiadau trydydd sector i ddenu cyllid ar gyfer gwasanaethau anstatudol o ffynonellau eraill nad ydynt efallai ar gael i gyrff cyhoeddus.

- 4.10 Un enghraifft yw'r Grŵp Llywio Ataliadau yn sir Benfro sy'n dod â phartneriaid allweddol at ei gilydd gan gynnwys iechyd, awdurdodau lleol, iechyd cyhoeddus, tai a'r trydydd sector. Mae'r grŵp wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau ataliol yn sir Benfro. Trwy drafod a chydweithio, datblygodd y grŵp wasanaeth atal dan arweiniad y trydydd sector. Gwnaeth Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro gais ar gyfer hyn i raglen LEADER, sy'n darparu 35% o'r cyllid (tua £75,000 y flwyddyn). Daw gweddill yr arian o Gofal Cymdeithasol i Oedolion, ICF, y bwrdd iechyd a Volunteering Matters (un o bartneriaid cyflawni'r prosiect).

Ymwneud y trydydd sector â strwythurau allweddol yn y sector cyhoeddus

- 4.11 Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw [Cefnogi Trydydd Sector Cymru](#). Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Nod y rhwydwaith yw galluogi'r trydydd sector a gwirfoddolwyr ledled Cymru i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau, yn awr ac at y dyfodol. Mae gan bartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru rôl i'w chwarae yn darparu *llais* i'r sector yn nhrefniadau llywodraethu'r sector cyhoeddus ac yn darparu mecanweithiau gwybodaeth ac adborth i'r sector drwy rwydweithiau.
- 4.12 Ceir parodrwydd i fudiadau trydydd sector fod yn rhan o waith gyda chyrrff cyhoeddus drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ond awgryma adborth fod bylchau'n bodoli mewn gwybodaeth ynglŷn â rôl a chylch gwaith y Byrddau hyn a'u haelodaeth. Tra mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi canolbwyntio hyd yma ar ddatblygu cynlluniau llesiant lleol, a hynny'n ddealladwy, argymhellir y dylai pob Bwrdd gyhoeddi manylion ei gynlluniau a'i aelodaeth, i helpu i gynnwys y trydydd sector ehangach. Mae'r sector hefyd wedi awgrymu cynnwys mwy nag un cynrychiolydd trydydd sector er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag ystod eang o bynciau a bod y wybodaeth a'r negeseuon sy'n deillio o'r Byrddau yn cyrraedd cynulleidfa eang.
- 4.13 Mae cyfleoedd hefyd i ystyried sut i wneud defnydd gwell o ddata trydydd sector i lywio cynllunio strategol lleol.

5. Y camau nesaf

- 5.1 Mae'r papur hwn yn amlinellu pwysigrwydd cydweithio rhwng y trydydd sector a'r sector cyhoeddus i gyflawni amcanion maent yn eu rhannu i wella llesiant yng Nghymru, yn ogystal â heriau sy'n ein hwynebu wrth geisio cyflawni hynny. Gofynnir i'r Cyngor Partneriaeth ystyried yr opsiynau i wella'r berthynas strategol a'r berthynas ariannu rhwng y trydydd sector yng Nghymru a'r camau nesaf.